Problemau darllen yr e-bost? Cliciwch yma.

Gŵyl Awyr Agored 2013

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn cynnal ei phedwaredd gŵyl Awyr Agored flynyddol yn hwyrach yn yr haf eleni i arddangos beth sydd gan nifer o glybiau awyr agored Gogledd Cymru i'w gynnig. Bydd gweithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr y dybiau lleol yn y Ganolfan Fynydd Genedlaethol ym Mhlas y Brenin a'r cyffiniau.

Yn 2005 gwelwyd bod angen gwella'r cyfleoedd i bobl Gogledd Orllewin Cymru gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ogystal â chynyddu cyfleoedd gwaith i bobl leol o fewn y sector.

Darllen mwy...

....

Darparwyr twristiaeth gweithgareddau awyr agored - rydym angen eich cymorth!

Mae Croeso Cymru wedi comisiynu Miller Research i wneud y canlynol ar ein rhan:

- Holi darparwyr twristiaeth gweithgareddau awyr agored Cymru
- Holi ymwelwyr sy'n defnyddio'r gweithgareddau hyn

Mae angen ymgysylltu â chymaint o phobl â phosibl i gynnal ymchwil o safon uchel. Llenwch yr holiadur hwn a gofynnwch i'ch ymwelwyr gymryd rhan hefyd.

Darllen mwy...

....

Hyfforddiant Awyr Agored i Bobl dros 50

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn chwilio am 10 o bobl ar draws Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn i gymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant gweithgareddau awyr agored ym Mhlas Menai, y Ganolfan Ddŵr Cenedlaethol. Bydd y cwrs yn un preswyl ac yn para am 6 wythnos.

Dechreuir y rhaglen ar ddydd Llun, Medi'r 23ain a bydd yn gorffen ar ddydd Gwener, y cyntaf o Dachwedd. Yn ystod y cwrs, cai'r rhai a gymrai ran y cyfle i ddatblygu eu sgiliau canŵa a cheufadu yn ogystal ag ennill nifer o gymwysterau sy'n angenrheidiol i fod yn hyfforddwr gan gynnwys Cymorth Cyntaf, a chwrs hyfforddiant Diogelwch ac Achub sylfaenol (FSRT).

Bydd y cwrs am ddim i'r cyfranogwyr, a chai ei ariannu gan y Bartneriaeth Awyr Agored drwy gyllid yr UE. I fod yn gymwys, bydd rhaid i'r unigolion fod yn

Gŵyl Awyr Agored 2013
Grŵp Awyr Agored Pen Llŷn
Llwyddiant i Glwb Rhwyfo Porthmadog yn Ras Afon Llundain
Gwirfoddolwr Mis Gorffennaf: Godfrey Owen
Y wefan yn cyrraedd uchder newydd
Ras y Cob- Porthmadog

Awyr Agored drwy gyllid yr UE. I fod yn gymwys, bydd rhaid i'r unigolion fod yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn, yn byw yng Ngwynedd, Conwy neu Ynys Môn, ac yn anweithgar yn economaidd.



Darllen mwy...

....

Grŵp Awyr Agored Pen Llŷn

Mae gweithgareddau'r clybiau'n ddibynnol ar waith caled ac ymroddiad aelodau gwirfoddol ac mae nhw wedi eu rhedeg ar adnoddau prin.

Bydd y prosiect hwn yn cefnogi'r gweithgareddau gwirfoddol ac yn canolbwyntio ar anghenion hyfforddiant yr aelodau a'r gwirfoddolwyr.

Bydd yn cymell gweithio mewn partneriaeth rhwng clybiau lleol a mudiadau cymunedol ac yn codi proffil y clybiau o fewn y gymuned ac yn caniatáu mynediad i fwy o bobl i ymwneud â gweithgareddau hamdden ar y dŵr.

Darllen mwy..

....

Llwyddiant i Glwb Rhwyfo Porthmadog yn Ras Afon Llundain

Ar ddydd Sadwrn, Medi'r 7fed, ymunodd Clwb Rhwyfo Porthmadog â dros 300 o gychod seddi sefydlog ar draws y DU ac Ewrop mewn ras 22 milltir ar hyd yr afon Tafwys o'r Dociau yn Llundain i 'Ham House' ger Richmond, Surrey.

Mae'r holl gychod, gan gynnwys cychod ddraig, sgiffiau, 'Curraghs' Gwyddeleg, Cychod Rhwyfo hir Celtaidd, 'seascouts', Cychod Penfro, 'Whalers' a chychod eraill traddodiadol o dan anfantais ac felly dechreuwyd y ras ar y sail hon.

O gychod Porthmadog, bu 6 ym mhob cwch gan fod angen un teithiwr ymhob cwch ac roedd baneri i'w gweld ar bob un gan gynnwys banner Porthmadog, y Jiwbilî a'r Ddraig Goch. Mynychodd 35 o gychod hir o hyd a lled Cymru gyda thimau o ddynion, merched a thimau cymysg, i gyd yn dechrau ar y man cychwyn am 12:55. Er gwaethaf y tonnau cryf, prysurdeb cychod eraill a'r frwydr i'r blaen ar yr afon cwblhawyd y cwrs mewn llai na thair awr. Wrth groesi'r llinell derfyn, gwelwyd yr arwres Paralympaidd, y Farwnes Tanni Grey-Thompson yn saliwtio'r timoedd.

Darllen mwy...